1. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

TEMPLED ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

GWNEUD PENDERFYNIADAU GWELL A THECACH

A. Cynnig

1. Teitl y cynnig

1. Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC)

2. Beth mae eich cynnig yn ceisio ei gyflawni?

2. Mae'r DPCC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru ac yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a gynhyrchir drwy wariant cyhoeddus blynyddol gwerth mwy nag £11 biliwn.
3. Mae'r DPCC yn cyflwyno un flaenoriaeth gyffredinol, sef: cryfhau economi Cymru drwy gaffael cyhoeddus. Ei nod yw creu economi gryfach, decach a mwy gwydn, cadw mwy o werth yng Nghymru a chynyddu'r manteision a sicrheir i fusnesau, gweithwyr a chymunedau yng Nghymru.
4. Yn y ddogfen hon, ystyr “Awdurdodau Contractio yng Nghymru” yw pob awdurdod contractio sy’n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu’n gwario arian cyhoeddus Cymru, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall. Dim ond i'r Awdurdodau Contractio hynny yng Nghymru a gwmpesir gan adran 14 o Ddeddf Caffael 2023 y mae cyfeiriadau at ddyletswydd gyfreithiol i ystyried y DPCC yn gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r egwyddorion a'r disgwyliadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon fod yn berthnasol i bob awdurdod contractio sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yng Nghymru neu'n gwario arian cyhoeddus Cymru. Felly, anogir Awdurdodau Contractio yng Nghymru nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol yn gryf i gymhwyso'r DPCC, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

3. Pryd y dechreuodd y gwaith ar y cynnig?

5. Ebrill 26

4. Pa sefydliadau, grwpiau neu gymunedau y mae'n debygol yr effeithir arnynt?

6. Awdurdodau Contractio yng Nghymru ac ymarferwyr caffael; busnesau a chyflenwyr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig (BBaChau) a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol; cyflogeion a gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi contractau cyhoeddus; prentisiaid, pobl sy'n chwilio am waith a phobl sy'n awyddus i ailhyfforddi neu gamu ymlaen; defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus; cymunedau y mae canlyniadau caffael yn effeithio arnynt; sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; undebau llafur a chynrychiolwyr y gweithlu; a phartneriaid cyflawni sy'n gyfrifol am ganllawiau, dysgu, data, adrodd a goruchwylio

5. A ydych wedi cofrestru eich Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar iShare?

Ydw

B. Yr effaith ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig ac ymgysylltu â phobl o'r fath

OEDRAN

1. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

7. Mae'r DPCC yn cynnwys cynigion sy'n ymwneud â phrentisiaethau, swyddi a sgiliau, datblygu'r gweithlu, gwaith teg, trawsnewid digidol a chanlyniadau gwasanaethau cyhoeddus. Gall yr ysgogiadau hyn effeithio ar bobl iau sy'n ymuno â'r byd gwaith am y tro cyntaf, pobl o oedran gweithio a gweithwyr hŷn neu ddefnyddwyr gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, defnyddio prosesau datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i ailhyfforddi gweithwyr hŷn ar gyfer rolau newydd, neu brentisiaeth er mwyn helpu gweithwyr hŷn i ddechrau gyrfa newydd. Yn ystod cam datblygu cychwynnol y DPCC, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol y nodwyd y byddai'r DPCC arfaethedig yn effeithio ar eu portffolios (mis Awst 2026) ac ystyriwyd eu hadborth.

2. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

8. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael ar hyn o bryd am y ffordd y bydd y DPCC yn effeithio ar wahanol grwpiau oedran. Bwriedir ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid drwy ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn galluogi Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr a'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau.

3. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

9. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr adran gaffael a Gwaith Teg; Swyddogion polisi dur; Swyddogion polisi bwyd; Swyddogion cyflawni caffael; Swyddogion polisi a deddfwriaeth caffael; Swyddogion polisi amgylcheddol, gan gynnwys y rhai sy'n arbenigo yn y meysydd canlynol: datgarboneiddio net sero yr hinsawdd economi gylchol economi sylfaenol; Swyddogion polisi gwerth cymdeithasol a swyddogion polisi Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC yn cynnig cyfle i Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai o sefydliadau yr effeithir arnynt a sefydliadau cynrychioliadol, adolygu'r DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol, caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

4. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

10. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol a, lle bo'n briodol, mae'r DPCC wedi cael ei ddiwygio. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig ag oedran yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol hwn â rhanddeiliaid.

5. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

11. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4. Lle y caiff ei gymhwyso'n briodol, gallai fod effeithiau cadarnhaol os bydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn hyrwyddo prentisiaethau neu'n annog datblygu a hyfforddi'r gweithlu o fewn eu caffaeliadau unigol. Gallai'r ysgogiadau hyn ddatblygu sgiliau'r rhai sy'n ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf neu, yn achos y rhai sy'n gweithio, gallai wella eu sgiliau gwaith presennol. Gall fod effeithiau negyddol os na fydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn ystyried yn briodol sut y gallai caffaeliadau unigol helpu i roi cyfleoedd i wahanol grwpiau oedran, fel peidio â chynnwys y potensial ar gyfer prentisiaethau neu i ddatblygu'r gweithlu.

6. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

12. Bydd y tîm polisi yn adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle bo angen.

ANABLEDD

7. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

13. Mae'r DPCC yn cyfeirio at gydraddoldeb, arferion gwaith diogel a chynhwysol, gwybodaeth hygyrch am dendrau, mynediad teg at gaffael a thrawsnewid digidol. Gallai'r darpariaethau hyn fod yn berthnasol i weithwyr anabl, perchnogion busnesau, cyflenwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

8. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

14. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael am y ffordd y gall y DPCC ddileu, neu leihau, rhwystrau i bobl anabl. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

9. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

15. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC yn cynnig cyfle i Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai o sefydliadau yr effeithir arnynt a sefydliadau cynrychioliadol, adolygu'r DPCC a chyflwyno sylwadau.

10. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

16. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol a sicrhau bod Gwaith Teg yn thema drawsbynciol drwy'r DPCC.

11. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

17. Gallai'r DPCC helpu i sicrhau bod cyflogaeth, cyfranogiad cyflenwyr a gwasanaethau yn fwy cynhwysol. Mae Gwaith Teg yn thema drawsbynciol yn y DPCC. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4, gan gynnwys sut y

gallant roi ysgogiadau caffael Gwaith Teg yn y DPCC ar waith, megis hyrwyddo cyflogaeth ddiogel a boddhaol, a chydraddoldeb ac arferion gwaith diogel a chynhwysol yn eu contractau, gyda chyflenwyr yn cymhwyso hyn yn eu harferion gwaith.

12. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

18. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

HIL

13. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

19. Mae'r DPCC yn ceisio cefnogi gwaith teg, cydraddoldeb, cadwyni cyflenwi lleol, BBaChau a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol. Gallai'r nodau hyn effeithio ar weithwyr, entrepreneuriaid, cyflenwyr a chymunedau o gefndiroedd ethnig gwahanol.

14. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

20. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael am y ffordd y gall y DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl â nodwedd warchodedig hil. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

15. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

21. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC yn cynnig cyfle i Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai o sefydliadau yr effeithir arnynt a sefydliadau cynrychioliadol, adolygu'r DPCC a chyflwyno sylwadau.

16. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

22. Adolygodd Tîm Gwaith Teg Llywodraeth Cymru y DPCC er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau gwaith teg. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â hil yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol hwn â rhanddeiliaid.

Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

23. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y byddant yn ystyried y ffordd y gall

caffael cyhoeddus hyrwyddo gwaith teg, megis drwy annog cydraddoldeb ac arferion gwaith diogel yn eu contractau. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol. Gallai hyn i leihau rhwystrau os caiff ei gymhwyso'n gyson gan Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn eu contractau a thrwy reoli contractau'n effeithiol.

17. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

24. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn. Bwriedir darparu deunyddiau ategol ychwanegol – llyfrgell adnoddau – er mwyn helpu Awdurdodau Contractio yng Nghymru i roi'r DPCC ar waith. Gellid drafftio rhagor o ddeunydd ategol, yn dibynnu ar adborth Awdurdodau Contractio yng Nghymru, a fydd yn helpu Awdurdodau Contractio yng Nghymru i hyrwyddo cydraddoldeb ac arferion gwaith teg o fewn prosesau a chontractau caffael cyhoeddus.

CREFYDD, CRED NEU DDIFFYG CRED

18. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

25. Mae'r DPCC yn cynnwys ymrwymiadau cyffredinol sy'n ymwneud â chydraddoldeb, gwaith teg a chyflogaeth gynhwysol, ond ni chyfeirir yn uniongyrchol at bobl â nodwedd warchodedig crefydd, cred a diffyg cred. Ar hyn o bryd, dim ond â rhanddeiliaid mewnol y nodwyd y byddai'r DPCC arfaethedig yn effeithio ar eu portffolios y mae'r Tîm Polisi wedi ymgysylltu (mis Awst 2026) a dim ond adborth y rhanddeiliaid sydd wedi'i ystyried.

19. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

26. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael am y ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl â nodwedd warchodedig crefydd, cred neu ddiffyg cred. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

20. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

27. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ynghylch y ffordd y gallai'r DPCC effeithio ar bobl â nodwedd warchodedig crefydd, cred neu ddiffyg cred.

21. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

28. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol a, lle bo'n briodol, mae'r DPCC wedi cael ei ddiwygio. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â chrefydd, cred neu ddiffyg cred yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol hwn â rhanddeiliaid.

22. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

29. Gallai'r DPCC gael effeithiau cadarnhaol a negyddol, er y byddent yn anuniongyrchol, yn dibynnu ar y ffordd y bydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn rhoi'r ysgogiadau caffael yn y datganiad ar waith. Gallai fod effaith gadarnhaol drwy Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn hyrwyddo cyflogaeth ddiogel a boddhaol a hyrwyddo arferion dim gwahaniaethu drwy gefnogi cydraddoldeb, ac annog arferion diogel a chynhwysol sy'n cyfrannu at lesiant a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau. Gallai fod effeithiau negyddol os na chaiff cydraddoldeb ac arferion gwaith diogel a chynhwysol eu hyrwyddo. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4.

23. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

30. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

RHYW

24. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

31. Mae'r DPCC yn cynnwys gwaith teg, datblygu'r gweithlu, cydraddoldeb, arferion gwaith diogel, swyddi a sgiliau, a gweithgarwch mewn sectorau â phroffiliau gweithlu gwahanol. Gallai'r darpariaethau hyn effeithio ar fenywod a dynion mewn ffyrdd gwahanol.

25. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

32. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael ar hyn o bryd. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau.

26. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

33. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y DPCC yn cynnig cyfle i Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai o sefydliadau yr effeithir arnynt a sefydliadau cynrychioliadol, adolygu'r DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir

effeithiau penodol, caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

27. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

34. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol, gan ddiwygio'r DPCC lle y bo'n briodol. Ni chafwyd unrhyw adborth mewn perthynas â'r ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl â nodwedd warchodedig rhyw.

28. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

35. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4, gan gynnwys ym mha ffordd y gallant roi'r ysgogiadau caffael Gwaith Teg yn y DPCC ar waith. Gellid hyrwyddo cydraddoldeb drwy sicrhau cyflogaeth ddiogel a boddhaol a rhoi arferion cyflogaeth diogel a chynhwysol ar waith yn gyson, gydag Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn annog mynediad teg a chyfartal at hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu.

29. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

36. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

AILBENNU RHYWEDD

30. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

37. Nid yw'r DPCC yn cyfeirio'n benodol at ailbennu rhywedd, ond mae'n cyfeirio at gydraddoldeb ac arferion gwaith diogel a chynhwysol. Gallai'r ymrwymiadau hyn fod yn berthnasol i bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael.

31. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

38. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cynnig cyfle i ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid, lle y gall Awdurdodau Contractio yng Nghymru, cyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai o sefydliadau yr effeithir arnynt a sefydliadau cynrychioliadol, fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

32. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

39. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Ni chafwyd unrhyw sylwadau penodol ynghylch y ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl â nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd.

33. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

40. Ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol, ystyriodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd, a, lle roedd yn briodol, diwygiwyd y DPCC.

34. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

41. Er bod yr effeithiau'n debygol o fod yn rhai anuniongyrchol, gallai fod effeithiau cadarnhaol. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y caiff arferion gwaith teg ac arferion gwaith cynhwysol eu hystyried a sicrhau bod cyflenwyr wedi dilyn polisïau ac arferion gwaith teg perthnasol. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

35. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

42. Gellid defnyddio Adroddiad Blynyddol Caffael Cymdeithasol Gyfrifol, o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, lle bo'n berthnasol, i ddangos sut mae gweithgarwch caffael wedi cyfrannu at waith teg a llesiant. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

CYFEIRIADEDD RHYWIOL

36. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

43. Nid yw'r DPCC yn cyfeirio'n uniongyrchol at gyfeiriadedd rhywiol, ond mae'n cyfeirio at gydraddoldeb ac arferion gwaith diogel a chynhwysol, a allai effeithio ar bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu heterorywiol. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael ar hyn o bryd.

37. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

44. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol am y ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu heterorywiol. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol, caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

38. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

45. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Ni chafwyd unrhyw sylwadau penodol ynghylch y ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu heterorywiol.

39. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

46. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol a, lle bo'n briodol, mae'r DPCC wedi cael ei ddiwygio.

40. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

47. Er bod yr effeithiau'n debygol o fod yn rhai anuniongyrchol, gallai'r cynnig leihau rhwystrau i bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu heterorywiol. Mae'r DPCC yn hyrwyddo arferion gwaith diogel a chynhwysol, cydraddoldeb a chyflogaeth ddiogel a boddhaol. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4, gan gynnwys ym mha ffordd y gallant roi'r ysgogiadau caffael Gwaith Teg hyn ar waith yn eu caffaeliadau cyhoeddus. Gallai fod effeithiau negyddol os na fydd Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn hyrwyddo egwyddorion gwaith teg yn eu caffaeliadau, manylebau contractau a rheoli contractau.

41. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

48. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH

42. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

49. Nid yw'r DPCC yn cyfeirio'n uniongyrchol at feichiogrwydd na mamolaeth. Fodd bynnag, gallai'r ymrwymiadau yn y DPCC ynglŷn â gwaith teg, cydraddoldeb, cyflogaeth ddiogel a boddhaol, datblygu'r gweithlu ac arferion gwaith diogel fod yn berthnasol i weithwyr beichiog a'r rhai sydd ar absenoldeb mamolaeth neu'n dychwelyd ohono. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael.

43. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

50. Nid oes tystiolaeth benodol ar gael am y ffordd y gallai'r DPCC leihau neu ddileu rhwystrau i fenywod sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

44. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

51. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Ni chafwyd unrhyw sylwadau

penodol ynghylch y ffordd y gallai'r DPCC ddileu neu leihau rhwystrau i fenywod sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth.

45. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

52. Adolygodd Tîm Gwaith Teg Llywodraeth Cymru y DPCC er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau gwaith teg. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd neu famolaeth yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol hwn â rhanddeiliaid.

46. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

53. Dylai Awdurdodau Contractio yng Nghymru gymhwyso'r DPCC fel y bo'n briodol, yn unol â'r datganiad a roddir ym mharagraff 4, gan gynnwys ystyried y ffordd y gallant gymhwyso (a monitro) yr ymrwymiadau gwaith teg yn y DPCC. Gallai'r DPCC helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn y gweithle lle y caiff yr egwyddorion gwaith teg hyn eu cymhwyso a'u monitro. Gallai fod effeithiau negyddol os caiff egwyddorion gwaith teg eu cymhwyso'n anghyson o fewn contractau.

47. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

54. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

48. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

55. Nid yw'r DPCC yn cyfeirio'n uniongyrchol at briodas na phartneriaeth sifil. Fodd bynnag, mae'r DPCC yn cynnwys ymrwymiadau ynglŷn â gwaith teg a chydraddoldeb, sydd â'r nod o leihau neu ddileu gwahaniaethu yn y gwaith. Gall hyn fod yn berthnasol i ddileu neu leihau rhwystrau yn y gwaith neu mewn cyflogaeth i bobl drwy briodas neu bartneriaeth sifil.

49. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

56. Mae'r DPCC yn hyrwyddo egwyddorion gwaith teg. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael am y ffordd y bydd y DPCC yn dileu neu'n lleihau rhwystrau yn y gwaith neu mewn cyflogaeth i bobl drwy briodas neu bartneriaeth sifil. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a chyflwyno sylwadau. Os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei ddiweddaru.

50. Â phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

57. I ddechrau, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys buddiannau caffael a Gwaith Teg. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â phriodas na phartneriaeth sifil yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol hwn â rhanddeiliaid.

51. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

58. Gwerthusodd y tîm Polisi yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewnol a, lle bo'n briodol, mae'r DPCC wedi cael ei ddiwygio. Ni chafwyd unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r ffordd y byddai'r ysgogiadau caffael a amlinellwyd sy'n mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y gwaith neu mewn cyflogaeth yn berthnasol i leihau neu ddileu rhwystrau i bobl drwy briodas neu bartneriaeth sifil.

52. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

59. Rhaid i Awdurdodau Contractio yng Nghymru sydd o fewn cwmpas statudol ystyried y DPCC, gan gynnwys y disgwyliad y byddant yn ystyried y ffordd y gall caffael cyhoeddus hyrwyddo gwaith teg, er enghraifft, drwy gefnogi cyflogaeth ddiogel a boddhaol, cydraddoldeb, llais gweithwyr ac arferion gwaith diogel a chynhwysol. os cânt eu cymhwyso'n gyson a'u monitro, gallai'r rhain leihau gwahaniaethu a lleihau neu ddileu'n anuniongyrchol rwystrau yn y gwaith neu mewn cyflogaeth i bobl drwy briodas neu bartneriaeth sifil. Gallai effeithiau negyddol ddeillio o gymhwyso egwyddorion gwaith teg yn anghyson ar draws caffaeliadau a rheoli/monitro contractau mewn ffordd anghyson. Anogir Awdurdodau Contractio eraill yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

53. Pa gamau a gymerir gennych i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

60. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n ceisio barn ynghylch a yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft wedi nodi'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â'r DPCC arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y tîm polisi yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio'r asesiad lle y bo angen. Os nodir effeithiau negyddol, rhoddir mesurau lliniaru ar waith er mwyn lleihau'r effeithiau hyn.

C. Cyhoeddi a Monitro

1. A yw'r Asesiad hwn Effaith Cydraddoldeb yn barod i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru?

Nac Ydy

2. Os na allwch gyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, esboniwch pam.

61. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn dal i fynd rhagddo. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fwrw golwg dros y DPCC a'r Asesiad Effaith Integredig a chyflwyno sylwadau ar y ddwy ddogfen. Caiff adborth o'r ymgynghoriad hwn ei adolygu ac, os nodir effeithiau penodol (cadarnhaol neu negyddol), caiff y rhain eu cydnabod a chaiff yr Asesiad Effaith

Cydraddoldeb ei ddiweddaru. Darperir yr Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel dogfen ategol pan osodir y DPCC gerbron y Senedd ar ddechrau 2027. Bwriedir cyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Integredig yn dilyn y broses hon.

3. A yw'r Asesiad hwn Effaith Cydraddoldeb hwn yn ddiweddariad o fersiwn a gyhoeddwyd yn flaenorol?

Nac Ydy

4. Sut y byddwch yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd o ran y materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a nodir yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn?

62. Dylai'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb barhau i gael ei adolygu wrth i'r DPCC, y canllawiau ategol a'r trefniadau gweithredu ddatblygu. Dylai gweithgarwch monitro fod yn gymesur â'r risgiau perthnasol a nodwyd ac ni ddylai ymrwymo i gasglu data nad ydynt ar gael, data annibynadwy na data anghymesur.